**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/P/LG/0897/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Mawrth 2019

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Chwefror sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am fy marn am Fil Amgylchedd drafft Llywodraeth y DU ac am ragor o wybodaeth am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae'n bwnc pwysig a chymhleth ac mae angen rhoi sylw ac ystyriaeth ofalus iddo. Ond mae'r diffyg eglurder ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn ychwanegu'n fawr at y cymhlethdod.

**Dadansoddi'r bwlch llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru.**

Byddwn yn crynhoi'n dadansoddiad o'r blwch llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn ein hymgynghoriad, a gaiff ei gyhoeddi ar 18 Mawrth. Yn ei hanfod, mae'n tanlinellu'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng y bwlch llywodraethu yng Nghymru a'r bwlch yng ngweddill y DU. Mae'n cyfeirio hefyd at y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad a'r ffaith bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd eisoes wedi pennu elfennau craidd y trefniadau llywodraethu oedd yn bodoli hefyd ar lefel yr UE.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit heb gytundeb**

Ein prif waith yn hyn o beth yw sicrhau nad oes bwlch o ran deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yr UE ar ôl gadael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru felly, dros y chwe mis diwethaf, wedi rhoi'r rhaglen ddeddfu fwyaf erioed ar waith i gyflawni'r amcan hwnnw. Bydd hynny'n sicrhau bod y mesurau gwarchod a diogelu presennol yn cael parhau ac yn golygu, os na fydd cytundeb, y bydd y safonau amgylcheddol presennol yn gymwys o'r diwrnod ymadael.

Gyda'r safonau amgylcheddol a'r mesurau diogelu felly yn eu lle, rhan allweddol o'r ymgynghoriad yw gofyn pa drefniadau llywodraethu ychwanegol sydd eu hangen i oruchwylio'r modd y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith. Felly, bydd holi'r cyrff presennol yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad. Fel Llywodraeth, rydym yn sylweddoli mai mater i'r Cynulliad yn y pendraw yw craffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ar waith.

O ran eich cwestiynau am y cyfeiriad yn fy llythyr at gyrff presennol Cymru a'u rôl llywodraethu yng Nghymru, hoffwn unioni camddehongliadau sydd wedi codi. Ynghylch effeithiau Brexit heb gytundeb a gallu'r bobl i wneud cwynion, mae rhai'n sôn na fydd trefn yn bod ar y diwrnod ymadael i bobl wneud cwyn. Nid yw hynny'n gywir gan na fydd pobl yn colli'u hawl i herio'r llywodraeth. Hyd yn oed os na fydd cytundeb, yn ogystal â chael mynd â'u cwynion i gyrff fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd pobl yn cael cwyno hefyd wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Ond ni fydd hawl ganddynt mwyach i ddefnyddio trefn gwynion yr UE sy'n galluogi'r Comisiwn Ewropeaidd i weithredu ar eu rhan a chyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop. Cafodd y system lywodraethu hon ei sefydlu ar lefel yr UE i ddelio'n benodol â threfniadau cyfansoddiadol yr UE. Er mwyn inni allu darparu trefniadau llywodraethu effeithiol ar y lefel ddomestig, rhaid inni lunio strwythur sy'n adlewyrchu'n trefniadau cyfansoddiadol domestig. Dyna pam y mae bodolaeth cyrff fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth bwysig ac yn enghraifft arall o'r gwahaniaeth yn y bylchau rhwng Cymru a rhannau eraill y DU. Yn fy llythyr, nid oeddwn yn cynnig rhoi rhagor o swyddogaethau i'r Comisiynydd neu gyrff eraill ond esbonio oeddwn i bod eu rôl bresennol yn siapio natur y bwlch yng Nghymru.

O ran natur unrhyw drefniadau pontio y bydd eu hangen, gellid defnyddio'r trefniadau a gafwyd o fod yn aelod o'r UE, mewn rhai senarios, i fynd i'r afael â hyn. Mae'r ffordd y bydd y DU yn gadael yn effeithio'n drwm ar unrhyw drefniadau llywodraethu amgylcheddol ychwanegol sydd eu hangen ac mae'r ansicrwydd presennol yn ychwanegu'n fawr at gymhlethdod y gwaith.

**Corff llywodraethu amgylcheddol newydd**

Rhaid i unrhyw drefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd a wneir ar ôl gadael yr UE fod yn gyson â'r gofynion rhyngwladol a bod yn gyson hefyd â'n trefniadau llywodraethu presennol, a'u hategu. Mae datblygu cynaliadwy, fel y deddfodd y Cynulliad Cenedlaethol ar ei gyfer yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a rôl y Cynulliad fel y corff sy'n dwyn y llywodraeth a chyrff cyhoeddus i gyfrif, yn ganolog i hyn.

Mae'r 'Swyddfa Amddiffyn yr Amgylchedd' (OEP) a gynigir gan Lywodraeth y DU ar y llaw arall, yn ceisio cau'r bylchau penodol yn Lloegr lle nad oes fframwaith cyfatebol o ran datblygu cynaliadwy na pholisi amgylcheddol. Ffocws rôl yr OEP yw cynllun Amgylcheddol Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr a datganiadau polisi'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhain yn faterion wrth gwrs sydd yng Nghymru wedi'u datganoli ac yn faterion y mae'r Cynulliad eisoes wedi pasio deddfwriaeth sylfaenol arnynt. Mae perygl felly y gallai'r Bil gael effaith negyddol ar ein setliad datganoli trwy dorri ar draws meysydd sydd wedi'u datganoli. Er enghraifft, trwy fabwysiadu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, byddai'r

Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfeiriad y polisi ar gyfer egwyddorion a pholisi yng Nghymru a heb sôn am y problemau cyfansoddiadol, byddai hynny'n gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn ei lle yng Nghymru. Mae'n rhaid cofio wrth gwrs bod hwn yn faes yr ydym wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol amdano am ein harferion da. Hefyd, byddai'n golygu bod angen i'r Cynulliad gytuno bod corff a benodir ac a ariennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am yr amgylchedd yn Lloegr, yn goruchwylio deddfwriaeth Gymreig.

Er hynny, rwyf wedi dweud yn gyson fy mod yn barod i drafod gwneud pethau ar lefel y DU ac wedi cael trafodaethau lu am y pwnc gyda'm cyd weinidogion yn y DU. Rwy'n dal yn fwy na pharod i gyd-ddylunio trefniadau â Llywodraethau eraill yn y DU. Ond er mwyn i'r trefniadau hyn fod yn gymwys i'r DU yn gyfan, rhaid iddynt gydnabod bod y man cychwyn yng Nghymru'n wahanol a chaniatáu o leiaf yr un faint o hyblygrwydd ag yr ydym wedi'i gael gan yr UE, yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog.

Rydym yn dal i drafod y Bil â Llywodraeth y DU. Yn y pendraw, mater i Lywodraeth y DU yw amserlen y ddeddfwriaeth ond rydym wedi dweud yn gyson y gallai rhuthro'r amserlen ein rhwystro rhag gallu gweithio i gyd-ddylunio cynigion priodol ar gyfer y DU yn gyfan. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau â Llywodraethau eraill yn y DU ac â'r ymgysylltu sy'n rhan o'r ymgynghoriad. Bydd cyfraniad rhanddeiliaid at yr ymgynghoriad yn allweddol i'n helpu i benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Bydd yr ymgynghoriad yn para deuddeg wythnos o 18 Mawrth ac rydym yn paratoi cynlluniau ar gyfer pob canlyniad posibl, gan gynnwys yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol Gymreig.

**Y Rhaglen Ddeddfwriaethol**

Byddwn yn cadw llygad barcud barhaus ar unrhyw filiau sydd â chysylltiad â Brexit ac mae gwaith ar y biliau hynny'n parhau. Mae'r ymgynghoriad ar Egwyddorion a Llywodraethiant Amgylcheddol yn enghraifft o'r gwaith hwnnw. Rwy'n siŵr bod y Pwyllgor o blaid ein gweld yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'w barn er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ateb y gofyn.

Cofion,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs